



Cydlifiad, Y Lab Hwlfordd

Cyngor Celfyddydau Cymru

Datganiad o'r Polisi Datblygu Cynaliadwy

Hydref 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Cynnwys

Beth yw datblygu cynaliadwy?.....	3
Cwmpas.....	3
Cefndir	3
Ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy	7
Cyswllt	7

Beth yw datblygu cynaliadwy?

Mae datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddiffinio mewn sawl ffordd, ond mae'r diffiniad a ddyfynnir amlaf yn dod o'r ddogfen, Ein Dyfodol Cyffredin, a adwaenir hefyd fel Adroddiad Brundtland:

"Datblygu cynaliadwy: datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

Prif nodweddion datblygu cynaliadwy yw:

- parchu pethau byw o bob math a gofalu amdanynt
- gwella ansawdd bywyd dynol
- lleihau'r colli adnoddau naturiol

Cwmpas

Mae'r datganiad polisi yma'n nodi sut y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ei weledigaeth o ddatblygu a chynnal Cymru Greadigol, lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd a llesiant y genedl, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Cefndir

Ym mis Ebrill 2015, pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gyfraith. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a chryfhau trefniadau llywodraethu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru (ac yn wir yng ngweddill y byd) ac ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru yn eu plith, i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog pob penderfyniad sefydliadol. Mae'n rhaid inni ddarparu tystiolaeth ar sut y mae hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol i Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru.

Er mwyn sicrhau bod pob corff cyhoeddus perthnasol yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant. Mae un o'r nodau hyn yn cyfeirio'n benodol at y celfyddydau a diwylliant – "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Dyma'r 7 nod allweddol i wella llesiant Cymru:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru wydn
3. Cymru iachach
4. Cymru fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Mae'r Ddeddf hefyd yn amlinellu 5 ffordd i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a fydd yn:

- ein galluogi i weithio gyda'n gilydd yn well
- osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol
- mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir ydym yn eu hwynebu

Dyma nhw:

1. **Tymor hir** – edrych ymlaen er mwyn rhagweld canlyniad ac effaith camau gweithredu ar genedlaethau'r dyfodol
2. **Atal** – ceisio gwneud llai o niwed ac atal problemau
3. **Integreiddiadau** - dod o hyd i ffyrdd gwell o integreiddio gwasanaethau a datblygiadau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf wrth sicrhau bod effaith y celfyddydau yn cael ei hintegreiddio ar draws y 7 nod
4. **Cydweithio** – gweithio gyda'n gilydd i wneud y gorau o adnoddau a chyflawni mwy
5. **Ymwneud** – cynnwys y rhai y mae'r camau gweithredu yn effeithio arnynt wrth gynllunio'r camau, sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu clywed a bod rhywun yn gwrando arnynt

Mae'r rôl gadarnhaol y gall y celfyddydau ei chwarae ym mywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y genedl yn cyd-fynd â'r nodau llesiant. Mae angen i'r celfyddydau a chreadigwydd gyffwrdd â phob agwedd ar bolisi cyhoeddus gan gynnwys:

- ymgysylltu â'r gymuned
- cysylltiadau rhyngwladol
- y celfyddydau ac iechyd
- twristiaeth ddiwylliannol
- celfyddyd gyhoeddus
- adfywio canol trefi

Mae'r celfyddydau'n cynnig cymorth, dilysrwydd a mwynhad ac yn:

- creu a chynnal swyddi
- cyfoethogi gwasanaethau addysg
- dod â phobl ynghyd
- gwella ansawdd ein bywydau

Rhaid cael sector celfyddydol ffyniannus sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth ac arloesedd sy'n cyfrannu at lesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.

Mae gormod o rwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar y celfyddydau – rhai diwylliannol, cymdeithasol neu economaidd. Un o'n blaenoriaethau yw dymchwel y rhwystrau hyn a dod â'r celfyddydau i'r bobl, er mwyn hwyluso hygyrchedd i bawb, boed yn ymarferwr, yn gyfranogwr neu'n aelod o'r gynulleidfa.

Mae sefydliad cydnerth yn un sydd wedi'i wreiddio yn ei gymuned y mae'n ei gwasanaethu, yn canolbwyntio ar ei chynulleidfa ac yn mabwysiadu model busnes sy'n gallu gwrthsefyll newid ac addasu iddo, boed hynny'n hysbys neu annisgwyl. Mae'n sefydliad a fydd yn gwrthsefyll ac yn cyflawni dros y tymor hir.

Ym Medi 2018, lanswyd ein cynllun corfforaethol newydd 2018-23 – [Er Budd Pawb](#)

Yno rydym ni'n nodi'n glir ein taith dros y 5 mlynedd nesaf, ac ymrwymiad clir i 2 flaenoriaeth allweddol:

1. Hyrwyddo cydraddoldebau'n sylfaen ein hymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru
2. Cryfhau gallu a gwytnwch y celfyddydau, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Mae ein Cyngor hefyd wedi nodi un cam gweithredu i gyflawni'r ddwy flaenoriaeth:

3. Galluogi Cyngor y Celfyddydau i weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithio'n fwy dychmygus gyda phartneriaid tebyg eu meddwl ledled Cymru

Mae'r tair blaenoriaeth yma'n cyd-fynd ac yn ategu ein dyletswydd statudol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Felly, nhw hefyd yw ein hamcanion llesiant.

I sicrhau ein bod yn ymateb i'r her, rydym ni'n defnyddio'r egwyddorion canlynol:

<p>Hirdymor</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n cynnal sgysiau agored sy'n canolbwyntio ar faterion go iawn i greu, rheoli a darparu atebion a fydd yn para • Byddwn ni'n datblygu perthynas hirdymor gyda'r arbenigwyr a'r cwsmeriaid. Byddwn ni'n ymrwmo i helpu pobl i ddarganfod ac adeiladu ar gryfderau a chynyddu ymddiriedaeth
<p>Atal</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr unig ffordd rydym ni'n dysgu ac yn gwella yw mentro. Byddwn ni'n defnyddio adborth fel cyfle dysgu • Byddwn ni'n lleihau prosesau er mwyn bod yn fwy effeithlon a fydd yn ein galluogi i gyflawni canlyniadau drwy ddarganfod, mesur llwyddiant a dysgu gwersi
<p>Integreiddio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n hael gyda'n hamser, ein hymdrechion a'n sgiliau wrth fod yn glir am egwyddorion datblygu cynaliadwy megis yr angen i ddiogelu a gwella asedau Cymru (cyfalaf cymdeithasol, ffisegol ac amgylcheddol) • Byddwn ni'n gwneud y defnydd gorau o ffynonellau gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes, gan integreiddio datblygu a defnyddio gwyddoniaeth ac ymchwil i bolisi a gwaith
<p>Cydweithio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n ymgysylltu â Gweinidogion yn gynnar ac yn sicrhau eu cysylltiad parhaus â swyddogion a rhanddeiliaid • Byddwn ni'n archwilio effeithiau cyfunol ein gweithredoedd yn y byd go iawn a rhannu ein gwybodaeth a datblygu dulliau integredig i ddatrys sawl her

<p>Cyfranogiad</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i gynyddu rhyngddibyniaeth rhwng dinasyddion a'r sector cyhoeddus, gan hyrwyddo perchnogaeth uniongyrchol a gwneud defnydd o brofiad personol a phrofiad eraill fel cyfranogwyr cyfartal • Byddwn ni'n cyflawni drwy weithio gydag eraill i ddatblygu canlyniadau, prosiectau a dulliau adrodd ar y cyd
---------------------------	---

Ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy

Rydym ni'n ystyried cyflawni'n gyfreithlon a chywir genedlaethau'r dyfodol fel rhwymedigaeth sylfaenol ac rydym ni'n cefnogi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy uchod ac yn glynu wrthynt. Disgwylir i'n staff wneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dilyn ein gweithdrefnau datblygu cynaliadwy drwy'r broses pum ffordd o weithio.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gydymffurfio'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae gwaith y Cyngor yn cael ei fonitro bob chwarter gan Grŵp monitro'r Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar ddatblygu cynaliadwy i'r Cyngor a'i gyhoeddi. Mae crynodeb o'r ddogfen wedi'i gynnwys yn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyswllt

Anfonwch gwestiynau am ddatblygu cynaliadwy a cheisiadau am wybodaeth at: llywodraethu@celf.cymru yn y lle cyntaf a'u marcio at sylw'r Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau.